# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Sara Jones** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd
yn Canolfan Tregarth
**Nos Iau 20 Tachwedd 2025 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Gareth Williams
Y Cynghorydd Lowri Roberts
Y Cynghorydd Huw Jones

**1. Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mary Hayes.

**Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Beca Roberts, Bethan Roberts, Iwan Hywel, Anwen Jones

**2. Ymweliad Mark Hughes – Cymru Football Foundation sef cangen elusennol o Football Association of Wales (FAW)**

**Y priosect 'Clwb Chwareon Tregarth'**

Ymwelodd Mark Hughes â'r Cyngor i egluro'r cynllun ar gyfer Cae Pêl-droed Tregarth, sydd i'w gyflwyno i Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn ystod yr wythnosau nesaf. Cyflwynodd Mark ei hun fel aelod o'r CFF, gan amlinellu nodau'r cynlluniau ar gyfer yr ardal.

Mae Mark yn gobeithio dychwelyd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y prosiect ymhellach, ar ôl i'r cais fynd drwy'r broses gynllunio ac ar ôl derbyn canlyniad y tendr.

**3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol:** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 o Hydref yn rithiol.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

**3.2 Mynedfa Lôn Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – Dal heb dderbyn ymateb; mae'r Clerc wedi gwneud ymholiad pellach.
**3.3 Pecyn Budd Cymunedol Zip World** – Mae'r Clerc wedi ail-anfon llythyr, ond nid oes ymateb wedi'i dderbyn hyd yma.
**3.4 Ffordd Tanrhiw / Bro Sir Ifor** – Mae asesiad wedi'i gwblhau; mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan Gyngor Gwynedd.

**3.5 Parcio ar Lôn Dinas (ger yr A5)** – Mae'r asesiad wedi'i gwblhau; mae'r Clerc yn disgwyl ymateb.
**3.6 Parc y Bwlch, Mynydd Llandygai** – Mae'r Clerc wedi gofyn am gadarnhad ynglŷn â'r pren a sut y gellid trefnu i'r gymuned ei dderbyn.
**3.8 Defnydd o chwynladdwyr, Braichtalog** – Mae'r Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am eu safbwynt.

**5. Gohebiaeth:** Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2025'

**5.1 Cwyn, Terfyn Cyflymder yr Ocar -** Trafodwyd hyn, a chytunwyd bod 60mya yn ormod ar gyfer y ffordd hon, gan ystyried bod ffyrdd eraill sy'n arwain at Mynydd Llandygai, ac yn Mynydd Llandygai ei hun, bellach wedi'u gosod ar 20mya. Ystyriwyd y posibilrwydd y bydd hyn yn cael ei ailystyried oherwydd y newidiadau yn y gyfraith ynghylch terfynau 20mya yng Nghymru. Cytunwyd y dylai'r Clerc anfon e-bost at Gyngor Gwynedd yn nodi pryderon y cyngor a'r trigolion.

**5.2 Llwybr 67 / Twll Pistyll / Gravel Lane -** Derbyniwyd gohebiaeth gan Julian Johnson ynghylch cyflwr Llwybr Troed 67 (Hawliau Tramwy / Twll Pistyll / Gravel Lane), gan gynnwys pryderon am dyfiant, arwyneb llithrig, a draeniau wedi'u blocio. Trafodwyd y mater gan y Cyngor Cymuned, a theimlwyd mai'r cam mwyaf priodol fyddai cyfeirio'r mater at Dafydd Meurig, sydd yn gynghorydd sir ardal Llanllechid ac sydd â chysylltiad da â'r Cyngor Cymuned ar faterion tebyg.
Nodwyd hefyd fod Cyngor Gwynedd eisoes wedi bod yn ymgysylltu ar y pwnc, ac felly teimlwyd efallai nad yw'r mater hwn o fewn cylch cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor Cymuned, yn enwedig os nad yw Cyngor Gwynedd yn ystyried y sefyllfa'n fater brys nac o arwyddocâd sylweddol. Mae'r Clerc yn aros am ymateb pellach gan Dafydd Meurig.

**5.3 Adborth i Holiadur Cynghorau Cymuned a Thref – Gwasanaethau ac Ymholiadau-** Trafodwyd yr holiadur, yn gyffredinol, rydym yn gwerthfawrogi cydweithio gyda Chyngor Gwynedd, ond mae profiadau diweddar yn dangos sawl mater i'w gwella:
Penderfynwyd defnyddio 'Galw Gwynedd' i ddelio efo cwynion/materion o hyn ymlaen gan ei fod yn defnyddio cyfeirnod mewn e bost yn ôl.

**5.4 Carnifal Bethesda - Rhodd flynyddol i'r Carnifal -** Nid oes modd cynnwys y Carnifal mewn rhodd flynyddol ond fod croeso i'r Pwyllgor wneud cais am rodd fel pob mudiad arall.

**5.5 Llywodraeth Cymru –** Pawb mewn cytundeb bydd y cynghorwyr yn ymateb yn unigol.

**5.6 Hyfforddiant -** Hyfforddiant i Sara– cyrsiau trwy Un Llais Cymru – y cynghorwyr yn gefnogol o hyn.

**6. Ymgeisydd am Sedd Wag –** 2 Gais wedi dod i law. Y clerc i ymateb holi am fwy o wybodaeth.

**7. Gwaith y mis**

**7.1 Lôn y Grug - Tyllau yn y lôn.** Gwaith wedi cael ei wneud ond mewn safon gwael. Y clerc i'w gofnodi ar Galw Gwynedd.

**7.2 E-bost gan Peter Roberts** – Pryderon gan pawb yn Ffrwd Galed – Llenwodd y gerddi tu ôl i'r adeiladau yn y storm diweddar, gormod o ddŵr i'r ffynnon. Cyngor Gwynedd yn ymwybodol fod y brigâd dân wedi bod yna ar y noson. Y Clerc wedi gyrru e bost Peter ymlaen ar wefan Cyngor Gwynedd.

**8. Adroddiad Cynrychiolwyr**

**Neuadd Goffa Mynydd Llandygai -** Ffair Nadolig yn y neuadd Nos Wener Tachwedd 28fed

**Ysgol Bodfeurig -** Llywodraethwyr newydd ei angen erbyn mis nesaf (Rhagfyr)

**Grŵp Cyswllt Chwarel y Penrhyn -** Cyfarfod Chwarel y Penrhyn ar 19/11/25. Adroddwyd bod cyflogaeth yno yn sefydlog ers y cyfarfod diweddaraf ( Ebrill 2025)

Mae yno alw cyson am lechi tô a bod llinell gynhyrchu newydd, yn canolbwyntio ar gynhyrchu llechi bychain i'w gwerthu i'r Iseldiroedd wrthi yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd, gyda buddsoddiad o £67k gan y cwmni

Adroddodd swyddogion Cyngor Gwynedd oedd yn bresennol yn y cyfarfod ( Cynllunio, ac Iechyd yr Amgylchedd) fod un cwyn yn unig wedi ei dderbyn ynglŷn a gweithrediad y Chwarel ers Ebrill 2025. Roedd hwn yn ymwneud ag ansawdd dŵr sydd yn cael ei allyrru o'r Chwarel, ac mae'r mater bellach wedi ei ddatrys.
Er fod gan gwmni Zip World ( sydd yn defnyddio rhan o safle y Chwarel) hawl i ddanfon tri cynrychiolydd i'r cyfarfod yma, siomedig oedd nodi nad oedd ganddynt neb yn bresennol. Byddant yn cael eu atgoffa o'r angen i ddanfon cynrychiolydd

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**9.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am y flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**10. Taliadau**

Angen gwirio y dyddiadau isod i Llyfrgell Bethesda ond pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau:

| Talai | Ffurf | Manylion | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Llyfrgell Bethesda (Partneriaeth Ogwen) | BACS | Cyfraniad 25% tuag at costau rhedeg llyfrgell - 01/04/25 - 30/09/25 | 388.52 |
| Llyfrgell Bethesda (Partneriaeth Ogwen) | BACS | Cyfraniad 25% tuag at costau rhedeg llyfrgell - 01/04/25 - 30/09/25 | 858.49 |
| Costcutters UK | BACS | Ysgol Bodfeurig – Momo Signs | 2,700 |
| Geiriau Gwyn | BACS | Cyfieithu y cyfarfod yn Mehefin (Rhithwir) | 108.00 |
| Geiriau Gwyn | BACS | Cyfieithu cyfarfod yn Gorffennaf (3.5 awr cynnwys teithio) | 223.56 |
| Geiriau Gwyn | BACS | Cyfieithu y cyfarfod yn Mis Medi (3.5 awr cynnwys teithio) | 223.56 |
| Geiriau Gwyn | BACS | Cyfieithu Mis Hydref (Rhithwir) | 108.00 |
| Gwasanaethau Clercio (Partneriaeth Ogwen) | BACS | Gwasanaethau hyd Hydref '25 i Mawrth '25 | 11,023.57 |
| T Shaw | BACS | Torri Llwybr Troed Llandygai – Hydref '25 | 3100.00 |
| T Shaw | BACS | Torri Gwair Canolfan Tregarth | 130.00 |

Cyfanswm £18,863.70

**11. Ceisiadau Cynllunio a Penderfyniadau Cynllunio:**

| | |
|---|---|
| **C25/0591/16/LL** | **Plot C4, Parc Bryn Cegin, Llandegai, LL57 4BG**<br>Bwriad: Codi dau adeilad swyddfa newydd, a chais ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad storio.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |
| **C25/0003/16/DT** | **Bryn Derwen, Bethesda**<br>Codi 3 boeler biomas (cais ôl-weithredol)<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill |
| **C24/0934/16/LL** | **Uned Porth Penrhyn, Bangor**<br>Caniatad cynllunio llawn i ddymchwel adeiladau presennol ar y safle a chodi adeilad newydd i greu 5 o unedau masnachol/diwydiannol ynghyd â mynedfa newydd cysylltiedig, darpariaethau parcio a gwith lliniaru llifogydd a thirlunio meddal<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill |

**12. Unrhyw fater brys arall**

Dim i'w drafod.

**13. Crynodeb Llais Ogwen**

Llifogydd diweddar ac bod Mark Hughes wedi mynychu y cyfarfod i drafod y prosiect 'Clwb Chwaraeon Tregarth'